
Y Gronfa Radio Cymunedol

Adroddiad diwedd blwyddyn: 2017/18

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar sut cafodd y Gronfa Radio Cymunedol ei gweinyddu yn 2017/18. Mae'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi gofyn i Ofcom weinyddu Cronfa Radio Cymunedol. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn rhoi swm o arian i'r Gronfa bob blwyddyn a chaiff grantiau eu dyfarnu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom.

Mae'r adroddiad yn nodi faint o arian a roddwyd ar ffurf grantiau, pa orsafoedd a gafodd grantiau ac at ba ddibenion y dyfarnwyd y grantiau.

Cynnwys

Adran

Heb ganfod tabl cynnwys.**Atodiad**

Heb ganfod tabl cynnwys.

1. Y Gronfa Radio Cymunedol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2017/18

- 1.1 Mae'r Gronfa Radio Cymunedol ('y Gronfa') yn bodoli i helpu'r rheini sy'n dal trwyddedau radio cymunedol a chefnogi costau craidd sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau radio cymunedol.
- 1.2 Mae Ofcom yn gweinyddu'r Gronfa ar ran yr Adran dros faterion Digidol, Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Gronfa yn cael ei roi ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.
- 1.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol ('y Panel') sy'n penderfynu ar y ceisiadau am grant ac mae'r Panel yn adrodd i Fwrdd Ofcom.
- 1.4 Roedd yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dyrannu £400,000 i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.
- 1.5 Cyfarfu'r Panel ddwywaith yn ystod y flwyddyn i ystyried y ceisiadau am grantiau, ym mis Mehefin 2017 ac ym mis Ionawr 2018.

Crynodeb o'r taliadau

- 1.6 Yn y rownd gyntaf, dyfarnwyd gwerth £142,920 o grantiau i 10 gorsaf.
- 1.7 Yn yr ail rownd, dyfarnwyd gwerth £257,080 o grantiau i 17 gorsaf arall.
- 1.8 Dros y ddwy rownd cyllido, cafodd 84 o geisiadau eu hystyried, gan ofyn am gyfanswm o £1,399,240 (£702,410 yn y rownd gyntaf a £696,830 yn yr ail rownd). Roedd 16 o ymgeiswyr wedi cyflwyno cais yn y naill rownd a'r llall, ac roedd saith ohonynt yn llwyddiannus (pob un yn yr ail rownd).
- 1.9 Roedd y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn yn amrywio o £2,160 i £21,190 gyda'r taliad cyfartalog yn £14,815. (Edrychwch ar Atodiad 1 i weld rhestr o'r dyfarniadau unigol).

Blaenoriaethau'r Panel

- 1.10 Mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel yn dilyn pob rownd cyllido sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed, yn ailadrodd blaenoriaethau cyllido parhaus y Panel, ac sy'n cynnwys sylwadau ychwanegol.
- 1.11 Yn y datganiadau pwysleisiodd y Panel na all roi grantiau i bob gorsaf sy'n gwneud cais gan mai hyn a hyn o arian sydd ar gael i'w roi ar ffurf grantiau. Mae'n ystyried pob cais, ynghyd â'r deunyddiau cysylltiedig, ac yn ystyried lefel angen yr ymgeiswyr, yn ogystal â'r budd a ddisgwylir o bob grant.
- 1.12 Mae'r Panel yn parhau i ystyried bod codi arian a hyrwyddo cynaliadwyedd tymor hir yn weithgareddau craidd, hanfodol. Mae felly'n parhau i ffafrio cynigion sydd â'r nodau hyn. Gofynnir i'r ymgeiswyr egluro sut bydd grant yn helpu sefydlogrwydd ariannol a gosod targedau ariannol clir ar gyfer y swyddi codi arian. Mae'r Panel hefyd yn parhau i gredu bod modd cydweithio neu gyflwyno ceisiadau ar y cyd rhwng gorsafoedd.

- 1.13 Roedd llawer o'r ceisiadau am grant yn 2017/18 ar gyfer swyddi datblygu busnes a chodi arian. Mae'r datganiadau cryno o'r dyfarniadau, a sylwadau ychwanegol gan y Panel, ar gael ar wefan Ofcom¹

Monitro grantiau

- 1.14 Mae gan y Panel weithdrefn adrodd ar waith i wneud yn siŵr bod y dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd arno. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai sy'n cael grant, ac mae hwn yn nodi telerau'r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwario. Ar ddiwedd cyfnod gwario'r grant, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad (yr 'adroddiad grant') sy'n rhoi manylion ynghylch sut roedden nhw wedi gwario eu grant o'r Gronfa. Os na chyflwynir adroddiad boddhaol, efallai y bydd y Panel yn gofyn am y grant yn ôl ac efallai na fydd yn ystyried rhoi grant arall i'r trwyddedai.
- 1.15 Ar ben hynny, gofynnir nawr am adroddiadau grant interim hanner ffordd drwy'r cyfnod gwario perthnasol. Nod yr adroddiadau interim ydy helpu i ddod o hyd i unrhyw broblemau posibl a fydd yn deillio o wario'r grant. Os bydd trwyddedai yn rhoi'r gorau i ddal ei drwydded darlledu (ee drwy ildio neu ddirymu) tra bydd cytundeb grant mewn lle, bydd yn rhaid talu unrhyw arian grant nad ydyw wedi cael ei wario yn llawn.
- 1.16 Ar gyfer y rownd gyntaf o gyllid yn 2017/18, rhaid cyflwyno'r adroddiadau interim ym mis Mai 2018, a chyflwyno'r adroddiadau terfynol ym mis Tachwedd 2018. Nid oes yn rhaid cyflwyno'r adroddiadau grant interim ar gyfer yr ail rownd o gyllid yn 2017/18 tan ddiwedd mis Hydref 2018, a chyflwyno'r adroddiadau grant terfynol erbyn mis Mehefin 2019.
- 1.17 Yn dilyn hysbysiad a gafodd Ofcom, rydyn ni wedi bod mewn cyswllt ag un trwyddedai radio cymunedol a gafodd arian yn 2017/18 er mwyn penderfynu a oedd y trwyddedai o bosibl wedi gwario unrhyw arian ar eitemau ar wahân i'r diben a ddynodwyd. Nid ydy'r cyfnod gwario ar gyfer y trwyddedai yma wedi dod i ben eto ac felly nid ydy'r adroddiad grant terfynol wedi cael ei gyflwyno eto yn yr achos yma. Gan ddibynnu ar ganlyniad ein hymholiadau, efallai bydd yn rhaid i'r trwyddedai ad-dalu unrhyw symiau na chawsant eu gwario at y diben grant a ddynodwyd. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn Adroddiad nesaf y Gronfa Radio Cymunedol.
- 1.18 Cafwyd adroddiadau grant yn ystod y flwyddyn ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd o'r Gronfa yn ystod 2015/16 a 2016/17. Byddwn yn edrych yn ofalus ar bob adroddiad ac yn gofyn am esboniadau gan y rheini a dderbyniodd grantiau os bydd angen.
- 1.19 Cafodd Frome FM grant ym mis Ionawr 2016, a daeth y cyfnod gwariant i ben ym mis Mehefin 2017. Bydd £711.54 yn cael ei ad-dalu i'r Gronfa gan na chafodd y swm hwn ei wario yn unol â chytundeb y Gronfa. Roedd hyn wedi dod i'r amlwg ar ôl adolygu eu hadroddiad grant.
- 1.20 Roedd An Radio (An Rèidio) hefyd wedi cael arian ym mis Ionawr 2016. Roedd ei adroddiad grant wedi dangos tanwariant o £167, a fydd yn cael ei ad-dalu i'r Gronfa.
- 1.21 Mewn achos arall lle rhoddwyd grant ym mis Mehefin 2016, nid oedd trwyddedai wedi cyflwyno adroddiad erbyn y dyddiad cau, ac wedyn cyflwynodd ei adroddiad bron i chwe mis yn hwyr. Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i weld a yw hyn yn golygu bod y trwyddedai wedi torri amodau ei drwydded.

¹ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/community-radio-fund/>

- 1.22 Roedd yr holl adroddiadau grant eraill a oedd i fod i gael eu cyflwyno yn ystod 2017/18 wedi cael eu cyflwyno ac yn foddhaol, ac eithrio tri achos, lle'r oedd trwyddedigion wedi gofyn am estyniad i'w cyfnod gwario a chafodd hynny ei ganiatáu. O ganlyniad, mae'r dyddiadau cau ar gyfer yr adroddiadau grant hyn wedi cael eu newid.

Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

- 1.23 Mae'r sector radio cymunedol wedi parhau i dyfu: roedd 255 o orsafoedd yn darlledu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/18, wrth gymharu â 245 yn 2016/17.
- 1.24 Mae'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cadarnhau y bydd yn parhau i ddarparu arian i'w ddefnyddio yn y Gronfa, hyd at a gan gynnwys y flwyddyn ariannol 2019/20.

Aelodau'r Panel

- 1.25 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodwyd gan Ofcom. Ar gyfer 2017/18 dyma oedd yr aelodau: Wendy Pilmer, Cadeirydd y Panel, sy'n ymgynghorydd sy'n gweithio gyda phrif ddarlledwyr y byd i weithredu strategaeth a rheoli newid; Richard Hilton, sy'n Uwch Bartner Buses Cyllid yn Business in the Community, elusen a mudiad aelodaeth sy'n gweithio gyda chwmnïau i wella effaith gadarnhaol busnesau ar gymdeithas; a Fiona Lennox, un o weithwyr Ofcom sydd â phrofiad helaeth mewn strategaeth, polisi, ymchwil a rheoli yn y maes cyfathrebu.

A1. Dyfarniadau i orsafoedd yn 2017/18

Rownd 1

Swm	Diben	Enw'r Orsaf	Lleoliad
£19,717	Rheolwr Datblygu Busnes	MKFM	Milton Keynes
£18,412	Rheolwr Datblygu Busnes	Radio Cardiff	Caerdydd
£4,100	Rheolwr Comisiynau a Phartneriaethau		
£16,500	Dirprwy Reolwr Gorsaf/Rheolwr Hyrwyddo	GTFM	Pontypridd
£16,400	Rheolwr Datblygu Busnes	Somer Valley FM	Midsomer Norton
£16,100	Rheolwr Datblygu Busnes	RWSfm	Bury St Edmunds
£15,451	Rheolwr Datblygu Corfforaethol ac Allgymorth	Cambridge 105	Caergrawnt
£13,524	Rheolwr Datblygu Busnes	Penistone FM	Penistone
£13,052	Rheolwr Datblygu Busnes	Radio Newark	Newark on Trent
£7,504	Codwr Arian	Eden FM	Penrith
£2,160	Arolwg Gwrandawyr	KCR	Keith
£142,920	Cyfanswm		

Rownd 2

Swm	Diben	Enw'r Orsaf	Lleoliad
£21,190	Prosiect Arolwg Cynulleidfa*	Wycombe Sound	High Wycombe
£20,000	Rheolwr Datblygu'r Orsaf	Glastonbury FM	Glastonbury
£19,650	Rheolwr Datblygu Busnes	1BTN	Brighton and Hove
£18,500	Rheolwr Datblygu Busnes	Belfast FM	Belfast
£18,000	Rheolwr Datblygu Busnes	Celtic Music Radio	Glasgow
£17,059	Rheolwr Datblygu Busnes	Unity Radio 92.8FM	Manceinion
£17,005	Rheolwr Datblygu Busnes	Black Diamond FM	Midlothian
£16,250	Swyddog Datblygu Busnes a Chynaliadwyedd	Chorley FM	Chorley
£16,244	Rheolwr Datblygu Busnes	Future Radio	Norwich
£15,000	Rheolwr Datblygu Busnes	Asian Star 101.6 FM	Slough
£15,000	Rheolwr Codi Arian	Radio Plus	Coventry
£14,850	Swyddog Datblygu Busnes **	Crystal FM	Penicuik
£14,532	Cyfarwyddwr Masnachol	Secklow Sounds	Milton Keynes
£13,000	Swyddog Hyfforddi	Black Country Radio	Stourbridge
£10,000	Codwr Arian	Harborough FM	Market Harborough
£5,800	Rheolwr Datblygu Busnes	KCC Live 99.8FM	Knowsley
£5,000	Grŵp Rhwydweithio Radio Hub	Gateway 97.8	Basildon
£257,080	Cyfanswm		

* Bydd y prosiect hwn yn cofnodi ac yn gwerthuso data, gyda golwg ar sefydlu methodoleg ffynhonnell-agored i'w defnyddio ar draws y sector yn y dyfodol (o dan arweiniad y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol).

** Swydd ar y cyd i helpu dwy orsaf radio cymunedol, sy'n ceisio cynyddu refeniw digidol ac ar yr awyr.